





CANLLAWIAU ARFERION DA AR
GYFRANOGAETH PLANT A PHOBL IFANC

13

ANNOG CYFRANOGIAD
DWYIEITHOG (CYMRAEG/SAESNEG)







? Beth fydd y canllaw hwn yn ei ddweud wrthyf?

Mae'r canllaw hwn yn ystyried y cyfrifoldeb sydd arnom i ddarparu dewis iaith i blant a phobl ifanc wrth gyfranogi. Bydd yn nodi'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyfranogi ac yn herio rhai o'r camsyniadau mwyaf cyffredin ynglŷn â gweithio'n ddwyieithog. Bwriad y canllaw hwn yw:

- eich annog i gynnwys yr iaith Gymraeg yn eich arferion
- darparu rhai enghreifftiau o arfer da
- darparu man cychwyn da i chi
- eich cyfeirio at ffynonellau help a gwybodaeth eraill.

? Pam ei bod yn bwysig hybu plant a phobl ifanc i gyfranogi'n ddwyieithog?

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru'r hawl i fynegi eu barn a chael eu parchu, i'w barn gael effaith, ac i gyfranogi mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar bob lefel. Mae'r hawl hwn wedi'i gynnwys yn Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae galluogi plant a phobl ifanc i gyfranogi yn llawn ac ystyrlon yn eu helpu i fod yn ddinasyddion gweithgar ac yn datblygu sgiliau, profiad a hunanhyder, ac yn rhoi mynediad iddynt at gyfleoedd. Mae darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc gyfranogi'n llawn yn y ffordd hon hefyd yn creu manteision i sefydliadau ac unigolion drwy ein helpu i ddatblygu polisiau a gwasanaethau mwy effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Er mwyn i blant a phobl ifanc allu cyfranogi mewn ffordd sydd mor llawn ac ystyrlon â phosib, mae'n rhaid iddyn nhw allu gwneud hyn heb wahaniaethu a'u bod yn gallu dewis yr iaith ar gyfer cyfrannu. Yn unol â'r hyn a nodir yn Erthygl 30 CCUHP, 'Mae gennych yr hawl i ddysgu ac i ddefnyddio iaith ac arferion eich teulu p'un a yw'r rhain yn cael eu rhannu gan y mwyafrif o bobl yn y wlad lle rydych yn byw ai peidio'.
(gweler Canllaw 2: Cyflwyno'r Achos)

Mae'r agwedd sy'n cael ei hamlinellu yn y canllaw hwn yn pwysleisio, er mwyn i blant a phobl ifanc gyfranogi drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, efallai y bydd angen newid y ffordd mae sefydliadau'n gweithio yn ogystal ag annog plant a phobl ifanc i fanteisio ar yr hyn sy'n cael ei gynnig. Mae'r Safonau Cenedlaethol Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc yn cynnwys safon ar 'Dim gwahaniaethu' a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael croeso a'u bod yn gallu cyfranogi os ydynt am wneud hynny.
(Gweler Canllaw 8: Monitro, Gwerthuso ac Archwilio)

Weithiau, gall gofyn i bobl weithio'n ddwyieithog ymddangos fel gofyn i chi wneud yr amhosib – fodd bynnag mae'n bosib, ac mae'n arbennig o bwysig i blant a phobl ifanc bod yr iaith Gymraeg yn cael ei chlywed a'i gweld o'u hamgylch.



Mae'r iaith Gymraeg yn datblygu i fod yn rhan amlycach ym mywydau ein plant a'n pobl ifanc. Yn 2007 roedd yna 591,846 o blant a phobl ifanc yng Nghymru a oedd yn gallu siarad Cymraeg. Wrth i ni symud tuag at greu "Cymru wirioneddol ddwyieithog", mae'r nifer yn cynyddu. Mae'r galw am addysg drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg hefyd ar gynydd ac felly bydd nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg yn codi. Mae gennym ddyletswydd i ddarparu ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hyn mewn ffordd sy'n addas ac yn gynaliadwy.

P'un a ydych yn gweithio gyda nifer fawr neu fach o unigolion sy'n siaradwyr Cymraeg, mae'n bwysig dangos bod eich sefydliad wedi ystyried y ffordd orau o ddarparu ar gyfer eu hanghenion. Mae hefyd yn bwysig bod unrhyw siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio'ch sefydliad mewn unrhyw ffordd yn teimlo y gallan nhw siarad Cymraeg os ydyn nhw eisiau.



Beth yw'r gyfraith ar gyfer darparu gwasanaeth dwyieithog?

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi y dylid trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r ffordd mae gofynion statudol y Ddeddf hon yn effeithio arnoch chi a'ch sefydliad yn dibynnu'n llwyr ar statws eich sefydliad. Mae'n werth gwneud ymholiadau i weld a oes gennych gynllun iaith ar waith ac os felly, beth yw'r hyn a ddisgwylir gennych. Cofiwch, os ydych yn gweithio i'ch cyngor lleol, mae disgwyl i chi gydymffurfio â'i gynllun iaith, ac mae hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer rhai cyrff sy'n dyrannu grantiau. Mae darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg hefyd yn cydymffurfio â nifer o bolisiau a dogfennau allweddol eraill megis y Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuentid ar gyfer Cymru ac Ymestyn Hawliau.



Beth yw manteision gweithio'n ddwyieithog?

- dangos parch at hunaniaeth y plentyn/person ifanc
- gwneud gwasanaethau neu weithgareddau yn fwy cynhwysol drwy alluogi plant a phobl ifanc i fynegi eu hunain yn eu dewis iaith
- codi proffil y sefydliad ac yn cydnabod perchenogaeth gan siaradwyr Cymraeg a phobl nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg
- rhoi mynediad ehangach at weithgareddau
- rhoi cydnabyddiaeth i natur ddwyieithog Cymru
- atgyfnerthu apêl sefydliad
- darparu gwasanaeth mwy effeithiol
- atgyfnerthu apêl codi arian sefydliad
- sicrhau cydymffurfiaeth â manylebau ieithyddol a diwylliannol mewn deddfwriaethau eraill
- cynnig gwasanaeth gwell i siaradwyr Cymraeg
- dangos ewyllys da
- denu gwirfoddolwyr sy'n siaradwyr Cymraeg
- cefnogi cyfraniad i berthyn i wlad ddwyieithog.



Astudiaeth Achos–Ad-drefnu eich staff i wasanaethu'r plant a phobl ifanc rydych yn gweithio gyda hwy mewn ffordd well

Roedd swyddog datblygu gyda Gwobr Dug Caeredin yn ei chael hi'n anodd gweithio gyda rhai ysgolion yn ei ward am eu bod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac nid oedd yn gallu siarad Cymraeg. Drwy weithio gyda swyddogion Menter Iaith Lleol a Swyddog Datblygu'r Iaith Gymraeg drwy'r Wobr, mae ganddi nifer o bobl ifanc yn cystadlu yn y Wobr erbyn hyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw'r iaith yn rhwystr bellach ac mae'r bobl ifanc yn cyfranogi mewn gweithgaredd y maen nhw'n eu fwynhau ac a fydd yn cyfoethogi eu bywydau.



Beth yw'r rhwystrau i blant a phobl ifanc rhag defnyddio'r iaith Gymraeg?

Mae yna nifer o ffactorau a all ddod yn rhwystrau i ddarparu gwasanaeth drwy'r iaith Gymraeg ac yn wir i'r plant a'r bobl ifanc sy'n defnyddio'r ddarpariaeth hon. Gall y rhain gynnwys:

- diffyg hyder
- teimlo eu bod yn cael eu rhoi dan bwysau
- ofn methiant
- mae eu dewis iaith a'u gallu yn wahanol i rai eu ffrindiau - nid ydynt am ymddangos yn wahanol - nid yw pob siaradwr Cymraeg yn siarad Cymraeg drwy'r amser
- bod yn 'Welshie' y grwp
- ofn cael eu cywiro os byddant yn gwneud camgymeriad
- cael eu derbyn – gwybod ei bod yn iawn iddynt siarad Cymraeg

Nid dim ond y plentyn neu'r person ifanc sy'n dod ar draws y rhwystrau a'r ofnau hyn; maen nhw'n gyffredin i unrhyw un nad yw wedi arfer defnyddio'r iaith Gymraeg mewn lleoliad newydd – hyd yn oed arweinwyr ac ymarferwyr. Bydd hyn yn gwella gyda phrofiad a thrwy ddatblygu technegau i fagu hyder plant a phobl ifanc; bydd hyn yn sicrhau cyfraniad pawb. (gweler Canllaw 7: Sicrhau Cynhwysiant)



Manylion: Egwyddorion


Os ydych chi am gael plant a phobl ifanc Cymraeg i gyfranogi yn effeithiol, mae'n rhaid i chi roi ystyriaeth i'r egwyddorion canlynol, ac ymrwymo iddyn nhw:



1. Parchu'r plentyn neu berson ifanc a'i ddewis iaith.
2. Hyrwyddo hawl y plentyn neu berson ifanc i fynegi ei hunan yn rhydd yn ei ddewis iaith.
3. Trin siaradwyr Cymraeg iaith 1af ac 2il iaith yn yr un modd.
4. Sicrhau bod adnoddau yn hawdd cael gafael arnyn nhw ac yn gywir – (gweler yr argymhellion ar gyfieithu).
5. Gwneud plant a phobl ifanc yn ymwybodol o hanes a diwylliant Cymru drwy atgyfnerthu eu hunaniaeth.
6. Peidio byth â thynnu sylw at blentyn neu berson ifanc am siarad neu beidio siarad Cymraeg.
7. Caniatáu i blant a phobl ifanc fod yn berchen ar eu hiaith eu hunain a'r ffordd y maen nhw'n ei defnyddio.
8. Cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o greu delwedd ddwyieithog i'r sefydliad.
9. Trefnu – ymestyn allan i grwpiau eraill. Mae Urdd Gobaith Cymru, Mentrau Iaith a Chlybiau Ffermwyr Ifanc Cymru'n gweithio gyda siaradwyr Cymraeg ifanc, gweithi wch gyda nhw i asesu anghenion siaradwyr Cymraeg ifanc yn eich ardal.
10. Byddwch yn gefnogol – atgyfnerthwch y syniad y gall plant a phobl ifanc ddefnyddio Cymraeg mewn ffordd sy'n gyfforddus iddyn nhw.

Manylion: Proses

Cyswllt Cychwynnol – Mae'r Argraffiadau Cyntaf yn Cyfrif!



Mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn teimlo bod y Gymraeg a'r Saesneg yr un mor bwysig a bod ganddyn nhw le yn eich sefydliad o'r cychwyn cyntaf. (Gweler Rhestr Wirio'r Broses)

Mae'r argraffiadau cyntaf yn bwysig iawn a byddant yn sefydlu'r sefyllfa arferol i'r plentyn neu berson ifanc yn ei gysylltiad â chi. Er mwyn creu amgylchedd dwyieithog yn hawdd, gallech roi cynnig ar y canlynol:

- sicrhau bod arwyddion, posteri a llenyddiaeth ddwyieithog ar gael
- cael cyfarchiad dwyieithog wrth i ffonau gael eu hateb
- cychwyn sgysiau yn y Gymraeg
- meddwl sut ydych chi'n cyfathrebu â phlant a phobl ifanc – allech chi wneud hyn yn ddwyieithog?



Rhestr Wirio'r Broses



Meddwl	Pa fath o weithgaredd/ymgyngoriad/digwyddiad?
Cynllunio	Sut y byddwch yn cynnwys siaradwyr Cymraeg ifanc ac yn defnyddio'r iaith Gymraeg?
Argraffiadau Cyntaf	Meddyliwch am gyfathrebu, pobl a llefydd.
Sgiliau	Pwy sydd â sgiliau? Meddyliwch am staff, gwirfoddolwyr a gwasanaethau y gallai fod eu hangen megis cyfieithwyr.
Gweithredu	Dylech fod yn barod amdani, yr her nawr yw dal ati!

Digwyddiadau a Chyfarfodydd Cyhoeddus

- lle bynnag y bo'n bosib, dewiswch gadeirydd sy'n ddwyieithog. Bydd hyn yn ddechrau da i'ch digwyddiad ac yn pennu'r safon ar gyfer y diwrnod.
- os bydd angen offer cyfieithu ar y pryd arnoch – rhwch glustffonau ar gadeiriau/ byrddau yn hytrach na gofyn i bobl a ydynt eu hangen.
- cyflwyniadau dwyieithog - hyd yn oed os nad yw'r siaradwr yn siarad Cymraeg mae'n arfer da cael sleidiau dwyieithog.
- gofynnwch i gynrychiolwyr am eu dewis iaith ymlaen llaw – os bydd siaradwyr Cymraeg yn mynychu byddwch yn gwybod ymlaen llaw a gallwch drefnu offer cyfieithu iddyn nhw.
- bydd anfon hysbysiadau, gwahoddiadau a phapurau dwyieithog yn annog unrhyw un sy'n mynychu i roi gwybod i'r trefnwyr ymlaen llaw eu bod yn dymuno cyfrannu yn Gymraeg.
- ystyriwch ddatblygu cronfa ddata o staff a gwirfoddolwyr sydd â sgiliau iaith Gymraeg a fyddai'n barod i helpu mewn achlysuron o'r fath.
- os nad oes gennych siaradwyr Cymraeg a bod angen cyngor arnoch efallai y gallech gysylltu â chynrychiolydd eich Menter iaith leol neu Urdd Gobaith Cymru i gael cyngor a chymorth pellach.
- os ydych yn ystyried digwyddiad ymgynghori gyda plant neu phobl ifanc dylech ystyried yr angen i gynnal yr ymgynghoriad hwn yn Gymraeg a dylid ystyried gallu'r ymgynghorwyr i wneud hyn cyn i chi gytuno ar unrhyw gontract.

Yn ogystal â digwyddiadau cyhoeddus, gallech hefyd roi lle i'r iaith Gymraeg ar eich agenda mewn cyfarfod er mwyn trafod darpariaeth, cynllunio ac unrhyw faterion sy'n codi.



Astudiaeth Achos – Clybiau Ffermwyr Ifanc – Fforwm Ieuentid Sir Gaerfyrddin

Mae is-bwyllgor Clybiau Ffermwyr Ifanc yn cynghori'r holl is-bwyllgorau eraill Clybiau Ffermwyr Ifanc ar farn yr aelodau iau o fewn y sefydliad. Mae'n grwp ar gyfer aelodau hyd at 18 oed ac mae'n llwyfan gwych i aelodau gael blas ar wneud penderfyniadau. Mae aelodau iau yn dod ynghyd i fynegi eu barn a sicrhau bod ganddynt lais yn y ffordd y caiff eu sefydliad ei redeg a bod y clybiau'n cyflawni eu gofynion. Mae hyn yn hollbwysig i'r Clybiau Ffermwyr Ifanc oherwydd caiff y clybiau eu rhedeg gan aelodau ar gyfer yr aelodau a chaiff penderfyniadau eu gwneud mewn ffordd ddemocrataidd ym mhob agwedd ar waith y sefydliadau. Nid yw iaith yn fater amlwg yma oherwydd bod y grwp yn cwrdd, yn cymdeithasu ac yn cael digon o hwyl yn eu dewis iaith. Nid ffurfioldeb sy'n bwysig ond yr hyn sy'n dod yn naturiol.

Cyfieithu - Argymhellion

Gall gwybodaeth nad yw yn iaith gyntaf plentyn neu berson ifanc fod yn rhwystr allweddol i'w gallu i gyfrannu at benderfyniadau. Mae cyfieithiadau effeithiol sy'n gyfeillgar i bobl ifanc yn helpu i sicrhau hyn. Gallai'r wybodaeth y mae plentyn neu berson ifanc yn ei chael fod yn argraff gyntaf o'ch sefydliad neu wasanaeth ac mae'n hanfodol bod y rhain yn ddwyieithog. Dylai'r dogfennau, posteri, negeseuon e-bost, neu gynnyrch marchnata a gynhyrchwch roi neges glir i bobl ifanc y gallan nhw gyfrannu yn eu dewis iaith os ydyn nhw'n dymuno.

Yn amlach na pheidio, ni fyddwch yn cwrdd â'r person sy'n gyfrifol am gyfieithu eich dogfennau wyneb yn wyneb. Bydd rhai sefydliadau'n trefnu cyfieithiadau drwy gyfrwng e-bost. Mae angen bod yn ofalus i ysgrifennu'r ddogfen mewn ffordd nad yw'n ymddangos yn ddiflas neu'n glogyrnaidd i bobl ifanc. Mae hyn yr un mor bwysig i siaradwyr Cymraeg, felly ceisiwch eu cadw mewn cof.



CANLLAW 13: ANNOG CYFRANOGIAD DWYIEITHOG (CYMRAEG/SAESNEG)

✓	Defnyddiwch gyfieithydd cymwys cydnabyddedig, gweler - http://www.welshtranslators.org.uk/ am gyngor pellach.
✗	Peidiwch â defnyddio aelod llawn bwriadau da o'r tîm, mae cyfieithu'n grefft – nid yw'r ffaith bod rhywun yn gallu siarad Cymraeg yn golygu y gallant gyfieithu!
✓	Defnyddiwch aelod o staff a plentyn neu berson ifanc pan fo'n bosib i brawf-ddarllen unrhyw ddogfennau cyn cytuno ar gopi terfynol.
✓	Byddwch yn glir ynghylch yr hyn rydych ei eisiau a darparwch enghreifftiau os yn bosib o waith rydych yn ei hoffi neu waith sydd wedi bod yn llwyddiannus yn y gorffennol.
✗	Peidiwch â chael eich temptio i anfon y ddogfen ymlaen heb baratoi rhywfaint o ganllawiau – bydd 5 munud o'ch amser i esbonio pwy yw'r gynulleidfa darged a'r ymdeimlad cyffredinol yr hoffech ei gael yn y ddogfen yn talu ar ei ganfed yn nes ymlaen.
✓	Casglwch enghreifftiau o waith sydd wedi'i gyfieithu'n dda ac mewn fformat sy'n gyfeillgar i blant a phobl ifanc a gofynnwch am adborth - yn arbennig gan blant a phobl ifanc!
✓	Gosodwch y safon a'i dilyn! Darparwch yr un ddogfen yn y ddwy iaith – bydd canllaw arddull yn eich helpu i feddwl am y cynllun.
✓	Defnyddiwch Gymraeg syml – ceisiwch osgoi gormod o jargon neu dalfyriadau a bod yn rhy ffurfiol.
✗	Peidiwch â darparu copïau Cymraeg ar gais yn unig – mae'n rhoi'r neges anghywir!
✓	Caniatewch amser digonol ar gyfer cyfieithu a chael rhywun i brawf-ddarllen y ddogfen cyn ei chyhoeddi.
✓	Gallwch gael cyfieithiad am ddim – os yw'n llai na 30 gair mae'r Llinell Gyswllt i'r Gymraeg (LinkLine to Welsh) yn wasanaeth gwych a allai eich helpu i gyfieithu posterï a hysbysiadau byr.
✓	Cofiwch arbrofi gyda chyflwyniadau dwyieithog – Hyd yn oed os nad yw'r siaradwr yn siarad Cymraeg mae'n arfer da cael cyflwyniad dwyieithog.
✗	Peidiwch ag ailgyfeirio defnyddwyr y we at gysylltiadau ar y we sydd wedi torri ar gyfer fersiwn Cymraeg o ddogfennau.
✓	Sicrhewch fod copi Cymraeg o bob dogfen Saesneg ar gael yn rhwydd.
✗	Peidiwch â cholli ystyr drwy gyfieithu geiriau'n llythrennol – bydd cyfieithydd da'n awgrymu geiriad gwahanol a fydd â'r un ystyr neu ystyr tebyg.



Mae'n dangos diffyg parch i'r iaith pan nad yw cysylltiadau i ddogfennau Cymraeg yn gweithio neu pan fydd dogfennau wedi'u cyflwyno'n wael neu wedi'u sillafu'n ddiotal!

Hyfforddiant

Er mwyn sicrhau bod pawb yn deall yn llwyr beth yw gweithio yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog, a'r rhesymau pam ei fod mor bwysig, efallai y byddwch am drefnu cwrs neu sesiwn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg ar gyfer eich sefydliad. Gellir gwneud hyn yn fewnol gan ddefnyddio pecynnau megis "*They all speak English Anyway*" neu drwy drefnu i gwmni hyfforddi gynnal sesiynau. Mae gwybodaeth bellach am y sesiynau hyn ar gael o dan yr adrannau adnoddau a gwybodaeth bellach.



Astudiaeth Achos – Tîm Hyfforddi 'Llais Pobl Ifanc', Uned Cyfranogeth

Mae'r Uned Cyfranogeth sydd wedi'i leoli yn Achub y Plant wedi datblygu tîm hyfforddi o dan arweiniad gwirfoddolwyr ifanc o'r enw 'Young People Say', sy'n cael ei ariannu i ddarparu hyfforddiant mewn cyfranogeth i oedolion ledled Cymru. Sefydlwyd y prosiect **The Young People Say**...gan berson ifanc er mwyn rhoi cyfle i bobl ifanc 16-21 oed ddylanwadu ar gyfranogeth plant a phobl ifanc ledled Cymru. Roedd yr Uned Cyfranogeth yn credu ei bod yn bwysig cael tîm hyfforddi iaith Gymraeg i gyfateb a'r prosiect yma wedi'i arwain gan wirfoddolwyr ifanc, a thrwy arian gan Estyn Llaw, datblygwyd y Prosiect 'Llais Pobl Ifanc'. Mae'r prosiect 'Young People Say'/'Llais Pobl Ifanc' wedi hyfforddi Swyddogion Cyswllt Rhanbarthol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, Swyddogion Gwasanaeth Ieuenctid Torfaen, Cymorth i Fenywod Cymru, Cynghorwyr Lleol ymhlith eraill. I gael gwybodaeth bellach am y prosiect hwn, cysylltwch â'r Uned Cyfranogeth yn Achub y Plant.

Ymchwil

Pwy yw'r "Siaradwyr Cymraeg", ble maen nhw a sut ydych chi'n ceisio cydweithio gyda nhw a darparu ar eu cyfer? Mae'n bosib y bydd rhai o'r bobl ifanc a welwch drwy'r dydd tra byddwch yn gweithio, yn siaradwyr Cymraeg. Mae gan siaradwyr Cymraeg ifanc yr un anghenion a dyheadau ag unrhyw un arall wrth gwrs - ond byddent yn hoffi eu gwireddu yn yr iaith Gymraeg o dro i dro. Felly, sut gallwn eu hadnabod? Gofynnwch iddyn nhw wrth gwrs! Pwy sydd â rhieni neu aelodau o'u teulu sy'n siaradwyr Cymraeg? Pwy sy'n mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg?



Gwnewch archwiliad mewnol, bydd hyn yn eich helpu i nodi unrhyw grwpiau neu unigolion sy'n siarad ac yn cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn eich galluogi i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau a allai fodoli yn eich darpariaeth.

Gallai hyn arwain at gynyddu'r ddarpariaeth sydd gennych eisoes neu wneud i chi feddwl am eich sefyllfa bresennol. Allwch chi gynnig rhywbeth sydd gennych ar hyn o bryd yn Gymraeg? Beth am eich staff - a ydych yn gwybod am unrhyw un sy'n gallu siarad Cymraeg? Efallai bod hyn yn swnio'n syml ond mae cydnabod sgiliau iaith y bobl ifanc hyn yn gam syml yn y cyfeiriad cywir - efallai y gallech gynnig gweithgaredd drwy gyfrwng y Gymraeg o bryd i'w gilydd neu ddarparu gwybodaeth ddwyieithog neu gynnig dewis iaith yn ystod ymgynghoriad? Gallai sicrhau eu bod yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys ei gwneud yn haws i'r plant a phobl ifanc hyn gyfranogi.



Astudiaeth Achos – Prosiect Ieuentid yr Iaith Gymraeg Casnewydd

Mae'r prosiect hwn yn ffrwyth llafur prosiect gan bobl ifanc i ganfod faint o wasanaethau a gweithgareddau sydd ar gael yn y ddinas drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Aeth y bobl ifanc ati'n frwdfrydig i weithio ar y prosiect hwn a chynhyrchwyd DVD ganddyn nhw a oedd yn dangos y prinder gwasanaethau a gweithgareddau sydd ar gael i bobl ifanc yn yr ardal. Roedd hefyd yn casglu barn ac awgrymiadau gan eu ffrindiau.

Cyflwynwyd eu canfyddiadau i'r Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, ynghyd ag argymhellion ynglyn ag anghenion pobl ifanc yn yr ardal. Yn 2008, penodwyd swyddog pobl ifanc i ddatblygu darpariaeth Cymraeg yn yr ardal. I gael gwybodaeth bellach cysylltwch â'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yng Nghasnewydd.



Cwestiynau Cyffredin



Ble i gychwyn?

Gallai cysylltu â grwpiau eraill megis Urdd Gobaith Cymru, Mentrau Iaith neu Glybiau Ffermwyr Ifanc fod yn fan cychwyn gwych ar gyfer cyflwyno'r iaith Gymraeg i'ch darpariaeth. Mae manylion sut y gallwch gysylltu â'r sefydliadau hyn ar y dudalen cysylltiadau.



Does gen i ddim staff nac adnoddau. Sut galla i ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg?

Gallai hyn fod yn anodd ond ni ddylai fod yn rhwystr mawr i chi. Gallech gysylltu â sefydliadau fel y rhai a awgrymwyd uchod neu hyd yn oed sefydlu grwp ymgynghori drwy eich ysgol Gymraeg leol. Os yw'n bosib, gallech hyd yn oed gynnig hyfforddiant ar y CCUHP a'r hyfforddiant Cyfranogi ar gyfer staff Cymraeg.



Hoffwn gynhyrchu popeth yn ddwyieithog – ond mae'r gost cyfieithu'n afrealistig! Oes help ar gael ar gyfer y math hwn o beth?

Os ydych am gyfieithu cyhoeddiad byr neu boster, edrychwch ar y gwasanaeth Llinell Gyswilt i'r Gymraeg (LinkLine to Welsh) o dan adnoddau. Dylech ystyried unrhyw gostau ychwanegol megis cyfieithu a'u hymgorffori yng nghyllidebau eich prosiect ar y dechrau.




Dydy fy Nghymraeg i ddim yn ddigon da, sut galla i ei gwella?

Mae llawer o bobl yn teimlo yr hoffent wella eu sgiliau iaith Gymraeg. Cynhelir dosbarthiadau ledled Cymru ar gyfer pobl a hoffai loywi eu Cymraeg, neu sy'n deall Cymraeg ond nad ydynt yn teimlo'n ddigon hyderus i'w siarad.

Mae'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch ar gael ar y Llinell Gwybodaeth Cymraeg i Oedolion - 0871 230 0017. Gallech hefyd fynd i wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer dysgwyr a'r rhai sy'n gwella eu sgiliau iaith Gymraeg.

<http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/wfasub/welshforadults/?lang=en>



Adnoddau

Mae'r Llinell Gyswilt i'r Gymraeg (LinkLine to Welsh) yn cynnig gwasanaeth cyfieithu am ddim! Mae hyn yn ddefnyddiol ar gyfer poster, negeseuon byr a nodiadau. Mae'n:

- cyfieithu hyd at 30 gair
- golygu hyd at 75 gair
- cyfieithu dewislenni o bob math
- darparu gwybodaeth ar bob agwedd ar Gymru a'r iaith Gymraeg
- cynghori ar enwau llefydd yng Nghymru

Rhif ffôn – 0845 607 6070

Anfonwch neges destun - +44 (0)762 480 4130

Anfonwch Ffacs - +44 (0)1248 725 735

Neu anfonwch eich dogfennau drwy e-bost at: linkline@byig-wlb.org.uk

Agor y Ddau Ddrws – Cyflwyniad i Waith Ieuentid Dwyieithog

Wedi'i gyhoeddi yn 2008 mae'r llawlyfr hwn wedi'i anelu at weithwyr ieuentid a rheolwyr gwaith ieuentid ym mhob sector o ddarpariaeth ieuentid. Mae'n sefydlu'r awyrgylch ar gyfer gwaith dwyieithog yng Nghymru ac mae'n anelu at gynnig cyngor a chanllawiau ymarferol ar sut i hybu arfer dwyieithog o fewn y ddarpariaeth gwaith ieuentid prif ffrwd yng Nghymru. Mae'r llawlyfr hwn yn edrych ar y ffordd ymarferol y gallech ddefnyddio'r iaith hefyd - megis cynhyrchu llenyddiaeth, defnyddio'r Gymraeg mewn amgylchedd anffurfiol a threfnu digwyddiadau dwyieithog. I gael copi o'r llawlyfr hwn ewch i adran gyhoeddiadau gwefan Estyn Llaw yn - www.estynllaw.org

Ar y cyfrifiadur ac yn rhad ac am ddim!

Mae yna fwy o gyfleoedd ar gael nag erioed o'r blaen i ddefnyddio Cymraeg ym maes Technoleg Gwybodaeth. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi gweithio mewn partneriaeth â Microsoft ers nifer o flynyddoedd ac maent wedi creu Pecynnau Rhyngwyneb am ddim yn yr iaith Gymraeg ar gyfer Microsoft Windows XP a Vista ac Office 2003 a 2007. I gael gwybodaeth bellach am yr iaith Gymraeg a thechnoleg gwybodaeth ewch i; <http://www.byig-wlb.org.uk>



Safonau Cenedlaethol Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc A ydym yn cyrraedd eich safonau? Cael llais, Cael dewis!

Cynhyrchwyd y deunyddiau hyn gan yr Uned Cyfranogaeth ar ran Gonsortiw Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru i hysbysu plant, pobl ifanc ac oedolion o hawliau plant a phobl ifanc i gael llais mewn penderfyniadau sy'n effeithio nhw a'r hyn y gallant ei ddisgwyl gan oedolion sy'n gweithio gyda hwy. Mae'r Safonau Cenedlaethol Cyfranogaeth yn berthnasol i bob sefydliad sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc neu sy'n cael effaith arnynt. Mae nod barcud ar fin cael ei ddatblygu.
<http://www.participationworkerswales.org.uk/participation>

Breathing Fire into Participation

Gan Trudy Aspinwall a Cath Larkins ar gyfer Draig Ffyni: Y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002. Mae Canllaw'r Ddraig Ffyni i Gyfranogi yn helpu i ddatblygu cyfranogiad effeithiol plant a phobl ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau yng Nghymru. <http://www.funkydragon.org>

Participation Spice it Up! Practical tools for engaging children and young people in planning and consultations

Gan Carrol Shephard, Dynamix Cyf a Phil Treseder, Achub y Plant Cymru. Mae'r canllaw hwyliog a bywiog hwn yn darparu dros 40 o weithgareddau a gemau a fydd yn annog plant a phobl ifanc i gyfrannu at y broses gwneud penderfyniadau.
http://www.savethechildren.org.uk/en/54_2346.htm

Canllawiau Tanio/Blast Off!

Datblygwyd y cyfres Tanio gan yr Uned Cyfranogaeth ar ran Gonsortiw Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru. Cyfres o ganllawiau arfer da ydynt sy'n seiliedig ar brofiadau gweithwyr cyfranogi yng Nghymru. Mae yna 9 o ganllawiau arfer da ar hyn o bryd, gyda mwy ar y gweill ar gyfer y dyfodol, ac mae'r pynciau'n amrywio o gyflwyno cyfranogiad i ganolbwyntio ar gyfranogiad.
<http://www.participationworkerswales.org.uk/participation>

Children and Decision Making, Toolbox and Training Pack

Ysgrifennwyd gan Nigel Thomas, Julia Phillipson, Clare O'Kane ac Elaine Davies ym Mhrifysgol Abertawe, 1999

Datblygwyd y canllaw a'r pecyn hyfforddi hwn i gynorthwyo ymarferwyr a rheolwyr i gynnwys plant sy'n derbyn gofal mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae'r pecyn yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) ac mae'n seiliedig ar waith ymchwil a ariannwyd gan Sefydliad Nuffield.



Democracy Cookbook

Mae'r 'Democracy Cookbook' yn offer addysgol helaeth sydd wedi'i anelu at weithwyr ieuenctid, athrawon ac ymarferwyr democratiaeth eraill i'w ddefnyddio gyda phobl ifanc. Mae'n darparu'r cynhwysion a'r ryseitiau i esbonio sut mae ein democratiaeth yn gweithio.

<http://www.dopolitics.org.uk/toolbox-index/toolbox2/d-f/democracy-cookbook>

'They all Speak English Anyway 2'

Cyhoeddwyd 'They all speak English anyway', gyntaf ym 1994, gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth am yr iaith Gymraeg a sensitifrwydd iaith - yn arbennig ym maes gwaith cymdeithasol a gofal. Mae hwn yn fersiwn wedi'i ddiweddarau, yn dilyn llwyddiant y cyhoeddiad cyntaf. Mewn fformat defnyddiol a chyfeillgar i ddefnyddwyr mae'n hawdd i bawb ei ddefnyddio yn y sector a thu hwnt. Gallwch lwytho copi i lawr o wefan Cyngor Gofal Cymru;

<http://www.ccwales.org.uk/DesktopDefault.aspx?tabid=366>



Cysylltiadau

Yr Uned Cyfranogaeth

Prif nod yr Uned Cyfranogaeth yw helpu plant a phobl ifanc (0-25) yng Nghymru i gyfranogi mewn materion sy'n cael effaith uniongyrchol ar eu bywydau. Rydym hefyd yn awyddus i newid safbwyntiau oedolion er mwyn ei gwneud yn haws i blant a phobl ifanc gyfranogi. Cynhelir yr Uned gan Achub y Plant ar ran y Consortiwm Cyfranogi, mae'n cael ei lywio gan y Consortiwm, ac mae'n gweithredu fel 'adain' gyflenwi.

http://www.savethechildren.org.uk/en/961_2255.htm

e-bost: participationunit@savethechildren.org.uk

Ffôn: 02920 396 838

Achub y Plant

Mae Achub y Plant yn credu bod gan blant a phobl ifanc yr hawl i gyfranogi mewn materion sy'n cael effaith uniongyrchol ar eu bywydau. Drwy eu cynnwys yn ein gwaith ymchwil, ein polisiâu a'n gwaith ymgyrchu, gallwn sicrhau bod ein gweithgareddau yn adlewyrchu realaeth wirioneddol eu bywydau ac yn gwneud gwahaniaeth. Achub y Plant sy'n cynnal yr Uned Gyfranogi ar ran Consortiwm Gyfranogi Plant a Phobl Ifanc Cymru.

<http://www.savethechildren.org.uk/wales>

Ffôn: 02920 396 838

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn fwrdd statudol, sy'n cael ei ariannu gan arian cyhoeddus. Ei brif swyddogaeth yw hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Sefydlwyd y Bwrdd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, yn bennaf i weithredu'r ddeddf. Mae'n gyfrifol am oruchwylio'r broses o baratoi cynlluniau iaith Gymraeg statudol, eu cymeradwyo a monitro'r gwaith o'u gweithredu.

Mae gwaith y Bwrdd yn cynnwys: cynnig cyngor a gwybodaeth i lywodraeth ganolog ac i'r cyhoedd; sicrhau bod cyrff y sector cyhoeddus yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn eu gwasanaethau; cadw golwg ar bob agwedd ar addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg; annog a chynorthwyo cwmnïau preifat a sefydliadau gwirfoddol i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg; dosbarthu grantiau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg; a datblygu adnoddau a gwasanaethau sy'n ei gwneud yn haws i ddefnyddio'r Gymraeg.

<http://www.byig-wlb.org.uk>

Ffôn: 029 2087 8000

Ffacs: 029 2087 8001

Urdd Gobaith Cymru

Mae'r Urdd, fel prif sefydliad ieuenctid Cymru, yn gyfrifol am gynnig nifer o gyfleoedd i bobl ifanc i gymdeithasu drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Nod yr Urdd yw sicrhau bod pob person ifanc yng Nghymru'n cael y cyfle i ddatblygu fel unigolion gan feithrin sgiliau personol a chymdeithasol a'u bod yn gallu meithrin rolau adeiladol mewn cymdeithas a byw bywydau cyflawn drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Cyflawnir hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd yn cynnwys gweithredu'r eisteddfod leol a chenedlaethol, profiadau yn y tri gwerysll preswyl, Glan-llyn, Llangrannog a Chaerdydd, drwy gynhyrchu cylchgronau, darparu cyfleoedd chwaraeon a rhaglen o weithgareddau ieuenctid a chymunedol ledled Cymru.

<http://www.urdd.org>



Mentrau Iaith

Beth yw Menter Iaith?

Mae Menter Iaith yn sefydliad lleol sy'n cynnig cymorth i gymunedau i gynyddu a datblygu eu defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae Menter Iaith fel arfer yn gwasanaethu sir gyfan, ac mae'n adlewyrchu dymuniad pobl lleol i wneud mwy o ddefnydd o'r iaith. Bydd Menter yn cynnig cyngor a chymorth i unigolion, sefydliadau a busnesau, a bydd yn trefnu gweithgareddau i godi proffil yr iaith Gymraeg.

Mae gwybodaeth ar gael am wasanaethau a darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn eich ardal, a sut i'w chanfod. Mae hon yn siop un stop ar gyfer yr iaith Gymraeg yn eich ardal!

Erbyn hyn mae yna rwydwaith o Fentrau Iaith ledled Cymru, ac mae'n debygol iawn bod yna Fenter yn eich ardal chi – defnyddiwch y cyswllt isod i gael gwybodaeth bellach am yr hyn sy'n digwydd yn eich ardal chi.

Beth mae Mentrau Iaith yn ei wneud?

Bydd eich Menter yn cynnig cyngor a help ymarferol i chi sydd yn aml yn rhad ac am ddim. Mae pob Menter yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau, yn dibynnu ar ofynion lleol, megis -

Cyngor

- i rieni newydd ar fagu eu plant yn ddwyieithog
- i sefydliadau cyhoeddus a gwirfoddol ar sut i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg
- i fusnesau sy'n awyddus i ddechrau cynnig gwasanaeth dwyieithog i'w cwsmeriaid
- Ar addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gweithgareddau

- cyfleoedd cymdeithasol a hamdden i blant a phobl ifanc ddefnyddio eu Gymraeg
 - cyfleoedd i ddysgwyr Gymraeg ddefnyddio eu Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth
 - ymgymryd â gwaith cyfieithu byr neu eich rhoi mewn cysylltiad â chyfieithydd
 - gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau lleol i gynnig gweithgareddau cymdeithasol.
- <http://www.mentrau-iaith.com>

Canolfannau Cymraeg i Oedolion

Cysylltwch â'ch Canolfan Cymraeg i Oedolion leol i gael gwybodaeth bellach am gyrsiau yn eich ardal, neu fel arall, cysylltwch â Learndirect ar 0800 100 900 neu info@welsh-foradults.org os hoffech wybodaeth annibynnol am gyrsiau, gyrfaoedd neu arian posib ar gyfer eich dysgu. <http://www.welshforadults.org>

Cynllun Gwobr Dug Caeredin

Ar hyn o bryd mae bron 20,000 o bobl ifanc yn cymryd rhan yng Ngwobr Dug Caeredin ledled Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae gan Swyddog Datblygu'r Iaith Gymraeg gyfrifoldeb yng Nghymru dros sefydlu a chefnogi grwpiau o bobl ifanc sy'n dymuno cwblhau rhan o wobr Dug Caeredin neu'r wobr gyfan drwy gyfrwng y Gymraeg. Os ydych yn awyddus i roi cynnig arni yn eich ardal chi, cysylltwch â Swyddog Datblygu'r Iaith Gymraeg yn;

Gwobr Dug Caeredin Cymru, Ty Derw, 12 Y Gwrthglawdd, Aberhonddu, Powys,
LD3 7AD
Or call - 01874 623 086



Estyn Llaw

Mae Estyn Llaw ar gael i gynnig cymorth a chyngor ymarferol i grwpiau gwirfoddol a chymunedol sy'n dymuno cynyddu eu defnydd o'r iaith Gymraeg er mwyn gallu cynnig dewis iaith cynhwysfawr i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae gan y wefan adnoddau a chyhoeddiadau gwych, yn cynnwys rhestr wirio ar gyfer dwyieithrwydd a gall ddarparu cyngor ac arweiniad i chi am ddim os bydd ei angen arnoch.

e-bost: ymhol@estynllaw.org

Ffôn: (0800) 9177 969 / (01239) 711668

Arweiniad Pellach

Iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog 2003.

Mae'r ddogfen hon gan Lywodraeth Cynulliad Cymru'n nodi fframwaith polisi cenedlaethol, sy'n diffinio ei rôl yn glir yn y gwaith o ddarparu arweinyddiaeth wleidyddol a strategol, y nodau i'w cyflawni a'r strategaethau eang i'w defnyddio er mwyn cyflawni 'gwlad gwbl ddwyieithog'.

'amrywiaeth o gyfleoedd i bobl ifanc a phobl ifanc yn eu harddegau i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd hamdden a chymdeithasol bob dydd.'

<http://wales.gov.uk/topics/welshlanguage/iaithpawb/?lang=en>

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Ar Dachwedd 20fed 1989 addawodd Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig rai pethau i blant drwy fabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (a elwir hefyd yn CHP) yn ffurfiol. Mae'r CHP yn darparu'r fframwaith ar gyfer hybu a diogelu hawliau dynol sylfaenol i bob plentyn, ym mhob man, drwy'r amser. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i gael eu magu yn eu teulu eu hunain, eu diwylliant, iaith a chrefydd eu hunain lle bynnag y bo'n bosib. <http://www.unicef.org.uk/youthvoice/crc.asp>

Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuentid Cymru

Mae'r Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuentid yn ei gwneud yn ofynnol:

- I bob person proffesiynol fod yn ymwybodol o werthoedd gwaith ieuentid ac yn sefydlu prif ddibenion gwaith ieuentid yng Nghymru;
- Fframwaith sy'n dangos y ffordd ar gyfer datblygu hyfforddiant ac arfer gwaith ieuentid ystyrion ledled Cymru;
- Fframwaith sy'n mynd i'r afael ag ansawdd hyfforddiant
- Dull ar gyfer mesur cynnydd.

'Cydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a'i threftadaeth, ieithoedd eraill a diwylliannau amrywiol yng Nghymru' a'u hannog i fynegi eu 'hunaniaeth ddiwylliannol, eu dwyieithrwydd a gwerth eu hiaith eu hunain'

Ymestyn Hawliau

"Dylai'r cymorth a roddir i bobl ifanc yng Nghymru fod yn seiliedig ar hawl ein pobl ifanc i ystod o wasanaethau yn eu dewis iaith, i hybu eu cyflawniadau a'u datblygiad fel unigolion"

Diolchiadau

Hoffem ddiolch i bawb a gytunodd i gael eu cynnwys yn y canllaw arfer da hwn a hefyd i'r rhai sydd wedi cyfrannu eu safbwyntiau ac sydd wedi rhannu eu harfer da gyda ni.